**GORCHYMYN**

DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984
DEDDF RHEOLI TRAFFIG 2004

# GORCHYMYN CYNGOR SIR CEREDIGION (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A DADLWYTHO) 2019 (MAES MWLDAN, ABERTEIFI) (GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 14) 2025

Mae Cyngor Sir Ceredigion (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen) wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 1, 2, 3, 4, 19, 32, 35, 45, 46, 47, 49, 53 a 124 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd, a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

1. Gellir galw’r Gorchymyn hwn yn "Orchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 (Maes Mwldan, Aberteifi) (Gorchymyn Diwygio Rhif 14) 2025" a daw i rym ar y 8fed diwrnod o Orffennaf 2025.

2. Effaith y Gorchymyn hwn fydd diwygio Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 drwy ddirymu'r cynlluniau a nodir yng Ngholofn A, Atodlen 1 y Gorchymyn hwn a chynnwys y cynlluniau a nodir yng Ngholofn B, Atodlen 1 y Gorchymyn hwn.

3. Os bydd llys, Llywodraeth Cymru, y Tribiwnlys Cosbau Traffig neu'r Ganolfan Gorfodi Traffig yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

**RHODDIR** dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ceredigion ar y 25ain diwrnod hwn o Fehefin Dwy Fil Dauddeg Pump.

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR CEREDIGION** )
at hyn ym mhresenoldeb )

9652

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

**ATODLEN 1**

| Colofn A | | | Colofn B | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau i'w dirymu** | | | **Cynlluniau i'w cynnwys** | | |
| Cyfeirnod CE | Is-fap | Dyddiad | Cyfeirnod CE | Is-fap | Dyddiad |
| CE81 | H23 | 05/02/2019 | CE81 | H23 | 18/02/25 |